CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU
PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

DYDDIAD 1 RHAGFYR 2021

PWNC

POLISI AIL-GYDBWYSO AC ADDASU

ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:

Cymeradwyo Polisi Ail-gydbwyso ac Addasu PPC

RHESYMAU:

Mae Polisi Ail-gydbwyso ac Addasu wedi'i ddatblygu ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru ac mae gofyn i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ei gymeradwyo.

Awdur yr Adroddiad:	**Swydd:**	**Rhif Ffôn: 01267 224160**
Chris Moore	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol **Cyngor Sir Gâr**	**E-bost:** **CMoore@carmarthenshire.gov.uk**

CRYNODEB GWEITHREDOL
CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

DYDDIAD 1 RHAGFYR 2021

POLISI AIL-GYDBWYSO AC ADDASU	
CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD Mae polisi Ail-gydbwyso ac Addasu wedi'i ddatblygu sy'n egluro dull PPC o ail-gydbwyso'r asedau sy'n cael eu dal yn is-gronfeydd y prif gronfeydd. Mae'r polisi'n amlinellu'r fframwaith a sefydlwyd i sicrhau bod dyraniadau rheolwyr yn yr is-gronfeydd yn cael eu monitro a'u hail-gydbwyso pan fo'n briodol. Mae'r polisi hwn yn gymwys i'r ystod lawn o is-gronfeydd a ddelir dan ymbarél ACS y Bartneriaeth, sy'n cynnwys mandadau ecwiti ac incwm sefydlog. Mae PPC yn cydnabod efallai fod yr Awdurdodau Cyfansoddol yn dal asedau eraill tu allan i'r Bartneriaeth, ac nid yw'r asedau hynny'n rhan o'r polisi hwn. Bwriad polisi ail-gydbwyso y Bartneriaeth yw sicrhau bod yr holl fuddsoddwyr yn glir ynghylch y polisïau ail-gydbwyso sydd mewn lle. Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu'n ffurfiol gan y Gweithgor Swyddogion bob blwyddyn, ac os bydd angen, cyflwynir newidiadau i'r polisi ger bron y Cydbwyllgor i'w cymeradwyo.	
ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?	**OES**

GOBLYGIADAU

Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb **OES**	Cyfreithiol **DIM**	Cyllid **DIM**	Materion Rheoli Risg **DIM**	Goblygiadau Staffio **DIM**
Polisi Mae polisi ail-gydbwyso ac addasu wedi'i baratoi a fydd yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru.				

YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma

Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 – Mynediad at Wybodaeth Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn: MANYLIR AR Y RHAIN ISOD		
Teitl y Ddogfen	**Cyfeirnod Ffeil**	**Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN**